

Felly, rydych chi eisiau bod yn nyrs?

Cyflwyniad byr i nyrsio



This item contains selected online content. It is for use alongside, not as a replacement for the module website, which is the primary study format and contains activities and resources that cannot be replicated in the printed versions.

Gwybodaeth am y cwrs am ddim hwn

Gall y fersiwn hwn o'r cynnwys gynnwys fideo, delweddau a chynnwys rhyngweithiol nad yw o bosibl wedi'i optimeiddio ar gyfer eich dyfais.

Gallwch brofi'r cwrs hwn sydd am ddim fel y cafodd ei ddylunio'n wreiddiol ar OpenLearn, cartref dysgu am ddim gan y Brifysgol Agored –

[*Felly, rydych chi eisiau bod yn nyrs? Cyflwyniad byr i nyrsio*](#)

Byddwch hefyd yn gallu olrhain eich cynnydd yn fan honno drwy eich cofnod gweithgaredd, y gallwch ei ddefnyddio i ddangos eich dysgu.

Hawlfraint © 2022 Y Brifysgol Agored

Eiddo deallusol

Oni nodir yn wahanol, mae'r adnodd hwn yn cael ei ryddhau o dan delerau Trwydded Creative Commons v4.0 http://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/deed.en_GB. O fewn hynny, mae'r Brifysgol Agored yn dehongli'r drwydded hon fel a ganlyn:

www.open.edu/openlearn/about-openlearn/frequently-asked-questions-on-openlearn. Mae hawlfraint a hawliau sydd y tu hwnt i delerau'r drwydded Creative Commons yn cael eu cadw a'u rheoli gan y Brifysgol Agored. Darllenwch y testun yn llawn cyn defnyddio'r cynnwys.

Rydyn ni'n credu mai'r prif rwystr o ran cael mynediad at brofiadau addysgol o safon uchel yw costau. Dyma pam ein bod ni'n bwriadu cyhoeddi cymaint o gynnwys am ddim ag y gallwn ni o dan drwydded agored. Os bydd hi'n anodd rhyddhau cynnwys o dan y drwydded Creative Commons sydd orau gennym (e.e. oherwydd nad ydym yn gallu cael neu fforddio'r caniatâd perthnasol neu ddod o hyd i ddewis arall addas), byddwn yn rhyddhau'r deunyddiau am ddim o hyd o dan drwydded defnyddiwr personol.

Mae hyn oherwydd bydd y profiad dysgu o'r un safon uchel bob amser a dylid ystyried hynny'n beth cadarnhaol - hyd yn oed os yw'r trwyddedu'n wahanol i Creative Commons o bryd i'w gilydd.

Wrth ddefnyddio'r cynnwys, mae'n rhaid i chi ein priodoli ni (y Brifysgol Agored) ac unrhyw awdur a enwyd yn unol â thelerau'r drwydded Creative Commons.

Defnyddir yr adran Cydnabyddiaeth i restru cynnwys trwyddedig trydydd parti (Perchnogol), ymhlith pethau eraill, sydd ddim yn atebol i drwyddedu Creative Commons. Mae'n rhaid defnyddio (cadw) cynnwys perchnogol yn gyfan ac yng nghyd-destun y cynnwys bob amser.

Defnyddir yr adran Cydnabyddiaeth hefyd i dynnu eich sylw at unrhyw Gyfyngiadau Arbennig eraill a allai fod yn berthnasol i'r cynnwys. Er enghraifft, efallai y bydd adegau pan na fydd y drwydded Creative Commons Non-Commercial Sharealike yn berthnasol i unrhyw ran o'r cynnwys, hyd yn oed os yw'r cynnwys yn eiddo i ni (y Brifysgol Agored). Yn yr achosion hyn, oni nodir yn wahanol, gellir defnyddio'r cynnwys at ddefnydd personol ac anfasnachol.

Rydyn ni hefyd wedi dynodi deunyddiau eraill yn y cynnwys sydd ddim yn ddarostyngedig i'r drwydded Creative Commons fel deunydd Perchnogol. Ymhlith y rhain mae logos OU ac enwau masnachu, a gallant ymestyn i rai delweddau ffotograffig a fideo a recordiadau sain, ac unrhyw ddeunydd arall y gellir ei ddwyn i'ch sylw.

Mae'n bosibl y bydd defnyddio unrhyw ran o'r cynnwys heb awdurdod yn torri telerau ac amodau a/neu ddeddfau eiddo deallusol.

Rydyn ni'n cadw'r hawl i newid, diwygio neu ddirwyn i ben unrhyw delerau ac amodau a ddarperir yma heb rybudd.

Mae'r holl hawliau sydd y tu hwnt i delerau'r drwydded Creative Commons yn cael eu cadw a'u rheoli gan y Brifysgol Agored.

Pennaeth Eiddo Deallusol, y Brifysgol Agored

Contents

Cyflwyniad	4
Learning Outcomes	5
1 Beth ydych chi'n ei wybod am nyrsio yn y DU?	6
2 Bod yn nyrs	9
3 Deall eich gwerthoedd eich hun a gwerthoedd ym maes nyrsio	12
3.1 Credoau a gwerthoedd ar waith mewn ymarfer nyrsio	13
3.2 Chwe gwerth craidd nyrsio	15
4 Gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill – rôl y tîm amlddisgyblaethol	18
5 Rheoleiddio nyrsys yn y DU	22
6 Pwysigrwydd astudio nyrsio	25
6.1 Astudiaeth theori nyrsio	25
7 Rôl defnyddwyr gwasanaethau mewn gofal iechyd	29
8 Pedwar maes nyrsio	31
8.1 Nyrsio iechyd meddwl	31
8.2 Nyrsio plant	32
8.3 Nyrsio anabledau dysgu	33
8.4 Nyrsio oedolion	34
8.5 Pa faes nyrsio sy'n addas i fi?	35
Casgliad	36
References	36
Acknowledgements	36

Cyflwyniad

Bydd y cwrs am ddim hwn, *Felly, rydych chi eisiau bod yn nyrs?* Cyflwyniad byr i nyrsio, yn rhoi cipolwg i chi ar nyrsio yn y DU a'i lle yn y byd.

Mae pandemig byd-eang (COVID-19) wedi taflu goleuni ar wasanaethau iechyd a'r bobl sy'n gweithio ynddyn nhw. Mae hyn yn cynnwys nyrsys. Nyrsys yw'r grŵp galwedigaethol mwyaf yn y sector iechyd. Ond beth mae bod yn nyrs yn ei olygu? Sut mae dod yn Nyrs Gofrestredig yn y DU, a sut beth yw'r rhaglen addysg? Ym mha fathau o rolau y mae nyrsys yn y DU yn gweithio, a sut mae penderfynu a yw nyrsio yn eich siwtio chi?



Bydd y cwrs hwn yn edrych ar yr holl bethau hyn a mwy. Wrth i chi weithio eich ffordd drwy'r adrannau a'r gweithgareddau, byddwch chi'n dysgu mwy am nyrsio heddiw, a lle gallai eich lle chi fod yn y byd nyrsio.

Mae'r cwrs OpenLearn hwn yn cael ei greu ar y cyd â chysiau'r Brifysgol Agored mewn [Nyrsio a Gofal Iechyd](#).

Learning Outcomes

Ar ôl astudio'r cwrs hwn, dylech allu:

- nodi'r cyfleoedd a'r rolau allweddol y mae nyrsys yn eu cyflawni yn y DU heddiw
- crynhoi rhai o'r heriau allweddol y mae nyrsys yn eu hwynebu a sefydlu beth sy'n gwneud nyrsys gwyb
- deall y gwahaniaethau rhwng y pedwar maes nyrsio a'r gwahanol ffyrdd o ddod yn Nyrs Gofrestredig yn y DU.

1 Beth ydych chi'n ei wybod am nyrsio yn y DU?

Byddwch yn dechrau'r adran hon gyda chwis er mwyn gweld beth yw eich dealltwriaeth gyfredol o nyrsio a'r hyn mae'n ei olygu. Peidiwch â phoeni os nad ydych chi'n gwybod yr atebion i unrhyw un o'r cwestiynau, mae adborth yn cael ei roi ar gyfer pob un.

Gweithgaredd 1 Beth ydych chi'n ei wybod am nyrsio yn y DU?

Faint o amser mae'n ei gymryd i hyfforddi i fod yn Nyrs Gofrestredig yn y DU?

Provide your answer...

Answer

Gall hyd cyrsiau amrywio yn dibynnu ar eich cymwysterau a'ch profiad. Mae rhai prifysgolion yn cynnig cyrsiau byr i raddedigion a chysiau hirach i'r rheini sydd angen astudio'n rhan-amser neu astudio ar lefel sylfaen. Mae'r holl addysg ar lefel gradd yn y DU ac fel arfer mae'n cymryd rhwng 2 a 6 blynedd i'w chwblhau, gyda'r radd amser llawn gyfartalog yn para tua 3 blynedd.

Gall unrhyw un alw ei hun yn Nyrs Gofrestredig. Cywir neu Anghywir?

- ☐ Cywir
- ☐ Anghywir

Answer

Yn y DU, mae'r teitl 'Nyrs Gofrestredig' wedi'i ddiogelu gan y gyfraith ac mae'n rhaid i bawb sy'n defnyddio'r teitl hwn fod wedi cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Fodd bynnag, nid yw'r teitl 'nyrs' wedi'i ddiogelu, felly gall unrhyw un ei ddefnyddio. Yn Adran 5 y cwrs hwn, byddwch yn edrych ar rôl rheoleiddio a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Ar wahân i ysbytai, ble arall mae nyrsys yn gweithio?

Provide your answer...

Answer

Mae nyrsys yn gweithio mewn amrywiaeth eang o weithleoedd yn y DU a ledled y byd. Ar wahân i ysbytai, fe welwch nyrsys mewn canolfannau a chlinigau iechyd, meddygfeydd, ysgolion, carchardai, cartrefi gofal a nyrsio, ar longau mordeithio, mewn busnesau mawr, yn y gymuned, yng nghartrefi pobl, mewn canolfannau galwadau fel 111, yn y Llywodraeth ac yn y byd addysg. Mae Adran 2 y cwrs hwn yn edrych ychydig yn fanylach ar y gwahanol rolau gwaith hyn.

Yn y DU, pa ganran o nyrsys sy'n ddynion?

A yw'n tua:

- ☐ 5%
- ☐ 10%
- ☐ 20%
- ☐ 25%

Answer

Mae adroddiad data'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer 2020/2021 yn awgrymu mai ychydig dros 10% o'r rheini sydd ar y gofrestr nyrsio yn y DU sy'n ddynion (80,500) (Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, 2021).

Yn y DU, pa ganran o nyrsys sy'n gweithio mewn ysbytai?

- ☐ 23%
- ☐ 45%
- ☐ 56%
- ☐ 80%

Answer

Yn ôl Carmel (2017), mae 56% o nyrsys yn y DU yn gweithio mewn ysbytai.

Pwy oedd Mary Seacole a beth mae hi'n ei olygu i'r proffesiwn nyrsio?

Provide your answer...

Answer

Mae hanes nyrsio yn bwysig i'r proffesiwn, ac mae nyrsio'n weithlu amrywiol. Nyrs Brydeinig-Caribïaidd oedd Mary Seacole a oedd yn gweithio ar yr un pryd â Florence Nightingale yn ystod Rhyfel y Crimea. Bu'n gweithio ar y rheng flaen yn ystod y rhyfel yn cynnig triniaeth i gannoedd o filwyr ac yn eu hadsefydlu.

Yn aml, mae pobl wedi clywed am Florence Nightingale, ond yn gwybod ychydig iawn am y nyrs Brydeinig Mary Seacole a'i gwaith. Os hoffech wybod mwy am Mary Seacole, gallwch ddarllen mwy yn y [Mary Seacole Trust](#).

Beth yw'r pedwar maes nyrsio yn y DU?

Provide your answer...

Answer

Mae pedwar maes nyrsio yn y DU:

- Nyrsio oedolion
- Nyrsio ieuchyd meddwl
- Nyrsio plant
- Nyrsio anabledau dysgu.

Mae gan bob un o'r meysydd hyn ei arbenigedd ei hun ac mae ganddo ei safonau ei hun ar gyfer addysg. Yn Adran 8 y cwrs hwn, byddwch yn edrych yn fanylach ar bob un o'r meysydd.

Wrth i chi weithio drwy'r cwrs, bydd yr adrannau yn ehangu eich gwybodaeth am nyrsio. Yn Adran 2, byddwch yn dechrau drwy edrych ar ddiffiniad nyrsio.

2 Bod yn nyrs

Yn yr adran hon, byddwch yn edrych ar ddiffiniad nyrsio ac yn archwilio ymhellach beth mae'n ei olygu i fod yn nyrs yn y DU a thu hwnt.

Diffiniad nyrsio

Mae Cyngor Rhyngwladol y Nyrsys (2002) yn diffinio nyrsio fel a ganlyn:

Mae nyrsio yn cwmpasu gofal annibynnol a chydweithredol i unigolion o bob oed, teuluoedd, grwpiau a chymunedau, sâl neu iach ac ym mhob lleoliad. Mae nyrsio'n cynnwys hybu iechyd, atal salwch, a gofalu am bobl sâl, pobl anabl a phobl sy'n marw. Mae eiriolaeth, hyrwyddo amgylchedd diogel, ymchwil, cymryd rhan mewn llunio polisi iechyd ac mewn rheoli systemau iechyd a chleifion, ac addysg hefyd yn rolau nyrsio allweddol.

(Cyngor Rhyngwladol y Nyrsys, 2002)

Mae negeseuon allweddol am nyrsio yn y diffiniad hwn, gan gynnwys sut mae'r ffocws mewn nyrsio nid yn unig ar y rhai sy'n sâl ond ar gynnal iechyd y rhai sy'n iach. Mae hon yn rôl allweddol wrth weithio gyda phobl o bob oed sydd ag anabledau neu gyflyrau iechyd eraill. Mae'n glir hefyd o'r diffiniad hwn bod nyrsys yn gweithio mewn amrywiaeth o leoliadau, nid dim ond ysbytai yn unig. Mae nyrsys hefyd yn gweithio ym maes addysg, ymchwil a llunio a siapiau polisiâu iechyd.



Yn y cwis yn Adran 1, fe wnaethoch chi edrych ar rai agweddau o'r hyn mae bod yn nyrs yn y DU yn ei olygu, ond wrth gwrs mae nyrsys yn bodoli ym mhob cwr o'r byd. Er y gall eu rolau amrywio, ac efallai eu bod nhw'n ymgymryd â gwahanol fathau o addysg i ddod yn nyrs o gymharu â'r rhai yn y DU, mae'r gair nyrs yn cael ei gydnabod yn fyd-eang. Yn ôl adroddiad 'The State of the World's Nursing 2020' Sefydliad Iechyd y Byd, mae 27.9 miliwn o nyrsys ledled y byd ac mae'r gweithlu nyrsio byd-eang yn ffurfio'r grŵp mwyaf o weithwyr ym maes gofal iechyd (Sefydliad Iechyd y Byd, 2020).

Mae gan bob gwlad ei dull ei hun o addysgu nyrsys, ond ar hyn o bryd y DU yw'r unig wlad sydd â phedair 'maes' nyrsio ar adeg cymhwyso fel Nyrs Gofrestredig. Mae llawer o wledydd ag arddull addysgu fwy generig, lle mae'r nyrsys yn arbenigo ar ôl iddynt gymhwyso.

Mewn rhai gwledydd, mae rôl y fydwraig hefyd wedi'i chynnwys yn rôl y nyrs ac nid oes cymhwyster ar wahân ar gyfer bydwragedd. Fodd bynnag, yn y DU, mae bydwreigiaeth yn gymhwyster ar wahân gyda rhaglen addysgol ar wahân.

Bydd rôl nyrsys a'u haddysg hefyd yn adlewyrchu sut mae gwasanaethau iechyd yn cael eu sefydlu mewn gwlad benodol. Er enghraifft, mewn gwledydd lle mae gofal iechyd yn canolbwyntio ar driniaeth fwy arbenigol, fe welwch ragor o nyrsys arbenigol. Er enghraifft, yn y DU gall nyrsys astudio cyrsiau arbenigol ar ôl ennill eu cymhwyster cychwynnol i ddod yn Nyrsys Arbenigol Epilepsi neu Nyrsys Arbenigol Diabetes. Yn ogystal, gall nyrsys

gyflawni rhagor o gymwysterau i ddod yn Nyrsys Ardal, Nyrsys Ysgol neu Ymwelwyr Iechyd yn y DU.

Mae nyrsio ledled y byd yn wynebu heriau tebyg, gan gynnwys prinder nyrsys ac, wrth gwrs, yn ddiweddar, pandemig byd-eang. Mae llawer o broblemau iechyd sy'n wynebu poblogaethau ledled y byd, gan gynnwys maeth (diffyg maeth a gordewdra), iechyd plant, gofal iechyd cynaliadwy, gofal brys a thrawma ac iechyd y cyhoedd mewn cymunedau. Mae nyrsys mewn llawer o wledydd hefyd yn gweithio mewn ardaloedd o wrthdaro ac yn darparu gofal o dan yr amodau mwyaf eithafol, er enghraifft mewn ysbytai maes yn ystod neu ar ôl rhyfel neu ar ôl trychinebau naturiol fel llifogydd a daeargrynfeydd.

Gweithgaredd 2 Diwrnod Rhyngwladol y Nyrsys

Bob blwyddyn, mae Diwrnod Rhyngwladol y Nyrsys yn dathlu gwaith nyrsys ledled y byd. Gwylwch Fideo 1 isod, a gafodd ei greu ar gyfer dathliad 2020.

Video content is not available in this format.

Fideo 1:



Pa negeseuon wnaethoch chi sylwi arnyn nhw wrth wylwio'r fideo hwn?

Provide your answer...

Discussion


Mae'n bosibl eich bod wedi sylwi bod pobl o bob cwr o'r byd yn y fideo, a bod gan bob un ohonynt eu straeon eu hunain am sut roedd nyrsio wedi effeithio arnyn nhw'n bersonol. Mae'n bosibl bod y neges am brinder nyrsys ledled y byd a galw ar lywodraethau i ymateb i hyn hefyd wedi taro tant gyda chi.

Roedd y fideo hwn i fod i bara'n hirach, ond fel y dywedodd y cyflwynydd, cafodd pandemig COVID-19 effaith ar nyrsio ar draws y byd. Yna, cafwyd cyfres o

ddelweddau o nyrsio a oedd yn dangos gwahanol rolau nyrsys mewn nifer o wahanol wledydd.

3 Deall eich gwerthoedd eich hun a gwerthoedd ym maes nyrsio

Mae deall y cysylltiad rhwng credoau, gwerthoedd, agweddau ac ymddygiad yn allweddol i ddeall o ble mae eich meddyliau, eich agweddau a'ch ymddygiad yn dod yn eich bywyd personol ac yn eich bywyd fel nyrs. Mae Ffigur 1 yn dangos y cysylltiadau rhwng eich credoau, eich gwerthoedd, eich agweddau a'ch ymddygiad.



Ffigur 1 Diagram gwerthoedd a chredoau

Yn Ffigur 1, mae'r pedair adran yn gorgyffwrdd i awgrymu bod pob adran yn cael effaith ar y llall. Mae ein credoau'n siapio ein gwerthoedd, mae ein gwerthoedd yn siapio ein hagweddau ac, yn eu tro, mae'r rhain i gyd yn siapio ein hymddygiad.

Gweithgaredd 3 Beth yw fy nghredoau a'm gwerthoedd?

Yn Nhabl 1 isod, ysgrifennwch eich ymatebion i'r cwestiynau, beth sy'n bwysig i mi? A beth sydd bwysicaf i mi?

Tabl 1 Fy nghredoau a'm gwerthoedd

	Yn y byd	Yn fy ngwaith (cyflogedig, di-dâl neu wirfoddol)	Yn fy mherthynas â phobl eraill	Ynof fi fy hun
Beth sy'n bwysig i mi?	Provide your answer...	Provide your answer...	Provide your answer...	Provide your answer...
Beth sydd bwysicaf i mi?	Provide your answer...	Provide your answer...	Provide your answer...	Provide your answer...

A yw'r pethau sy'n bwysig i chi yn croesi rhwng categorïau? Yn aml, os yw gwerth, fel gonestrwydd, yn bwysig i chi yn eich gwaith, mae hefyd yn bwysig yn eich perthnasoedd. Edrychwch ar y pethau sy'n gorgyffwrdd a beth sydd bwysicaf i chi. Wrth i chi weithio drwy'r adrannau nesaf, byddwch yn gweld sut mae eich credoau a'ch gwerthoedd yn effeithio ar ymarfer nyrsio.

3.1 Credoau a gwerthoedd ar waith mewn ymarfer nyrsio

Mae nyrsio'n cynnwys sawl agwedd ar ryngweithio rhwng pobl, gan gynnwys cyfathrebu, gwneud penderfyniadau a meithrin perthnasoedd. Mae eich credoau a'ch gwerthoedd yn nodwedd allweddol o bwy ydych chi fel nyrs. Yn eich rôl fel nyrs, mae angen i chi ddeall eich credoau a'ch gwerthoedd er mwyn i chi allu sicrhau eich bod yn darparu gofal proffesiynol ac anfeiriadol i'r rheini sydd ei angen.

Gweithgaredd 4 Archwilio eich credoau

Ym mhob senario isod, dychmygwch mai chi yw'r nyrs. Ystyriwch sut rydych chi'n teimlo wrth ddarllen y senario, sut rydych chi'n meddwl y byddech chi'n ymateb, ac ystyriwch pa greddau y gallai eich ymateb fod yn seiliedig arnynt.

Senario 1

Mae claf wedi cael ei dderbyn i'ch ward/uned. Mae'n sâl ond mae wedi cyflawni trosedd yn erbyn plentyn.

Yn y senario hon, ydych chi'n meddwl bod y person yn haeddu cael triniaeth? Os ydych chi wedi ateb ydw neu nac ydw, yna beth mae hyn yn ei ddweud wrthyh chi am eich gwerthoedd a'ch credoau?

Provide your answer...

Senario 2

Mae unigolyn sy'n ddibynnol ar alcohol a chyffuriau wedi cael ei dderbyn i gael trawsblaniad iau. Rydych chi'n ymwybodol ei fod wedi ceisio rhoi'r gorau i yfed alcohol a chymryd cyffuriau droeon, ond mae wedi dweud yn glir ei fod yn bwriadu mynd yn ôl at hyn ar ôl cael triniaeth.

Yn y senario hon, ydych chi'n meddwl bod y person yn haeddu cael triniaeth? Os ydych chi wedi ateb ydw neu nac ydw, yna beth mae hyn yn ei ddweud wrthyh chi am eich gwerthoedd a'ch credoau?

Provide your answer...

Senario 3

Mae person ifanc wedi cael ei roi yn eich gofal ar ôl ceisio lladd ei hun. Nid yw eisiau cael ei drin, ac mae wedi dweud wrthyh chi ei fod 'eisiau marw'.

Yn y senario hon, sut ydych chi'n meddwl y byddech chi'n ymateb? Yn eich barn chi, beth mae eich ymateb yn ei ddweud wrthyh chi am eich gwerthoedd a'ch credoau?

Provide your answer...

Senario 4

Mae plentyn ag anableddau dysgu a chorfforol difrifol yn wael iawn ac mae angen trafod opsiynau dadebru gyda'r rhieni.

Yn y senario hon, sut ydych chi'n meddwl y byddech chi'n ymateb? Yn eich barn chi, beth mae eich ymateb yn ei ddweud wrthyh chi am eich gwerthoedd a'ch credoau?

Provide your answer...

Discussion

Mae'r adborth isod yn edrych ar sut y gallai eich gwerthoedd a'ch credoau fod wedi effeithio ar y ffordd y gwnaethoch ymateb i'r pedair senario.

Mae gwerthoedd yn cael dylanwad mawr ar weithredoedd ymarferwyr mewn ffyrdd cynnil a ffyrdd mwy amlwg. Weithiau dydych chi ddim yn ymwybodol o'ch credoau a sut gallan nhw siapio'r ffordd rydych chi'n meddwl am gleifion. Er enghraifft, os ydych chi'n credu y dylai pobl reoli faint maen nhw'n ei yfed, a pheidio â disgwyl unrhyw gymorth gan y GIG os na allant wneud hynny, yna rydych chi'n debygol o gredu nad yw'r claf yn Senario 2 yn haeddu cael cymorth.

Mae eich gwerthoedd a'ch credoau personol yn rhan annatod o'ch cymdeithasoli proffesiynol. Mae'r gwerthoedd a'r credoau sydd gennych pan fyddwch chi'n dechrau nyrsio yn siapio eich datblygiad fel nyrs, a'ch cymdeithasoli proffesiynol. Yn ystod y cyfnod hwn byddwch yn dysgu beth yw bod yn nyrs, sut i fod yn anfeirniadol a pheidio â gadael i ragfarn lywio eich penderfyniadau. Er y gallech chi wir gredu nad yw'r person yn Senario 1 yn haeddu cael unrhyw fath o driniaeth, mae gwasanaethau iechyd yno i bawb ac mae eich gwerthoedd nyrsio yn awgrymu eich bod yn gofalu am bawb.

Yn aml, credoau a gwerthoedd personol sydd wrth wraidd y rheswm pam mae pobl yn dewis nyrsio.

Mae pobl yn aml yn dweud eu bod wedi dewis nyrsio oherwydd eu bod eisiau gofalu am eraill a helpu eraill i fod mor annibynnol â phosibl. Mae'r rhain yn gredoau a gwerthoedd am gefnogi pobl agored i niwed a phobl sâl mewn cymdeithas. Bydd gennych hefyd set o gredoau personol a allai fod wedi cael eu llunio gan eich safbwyntiau crefyddol. Yn achos Senario 3, efallai eich bod yn credu'n bersonol bod hunanladdiad yn anghywir ac y gallai hynny wedyn ddylanwadu ar y ffordd yr ydych yn rhyngweithio â'r person ifanc hwnnw.

Mae'r rhan fwyaf o astudiaethau'n awgrymu nad ydych yn newid eich gwerthoedd a'ch credoau sylfaenol wrth ddod ar draws senarios a allai herio eich barn, ond eich bod yn cymryd camau penodol pan fo'r credoau a'r gwerthoedd hyn yn gwrthdaro â'r sefydliad.

Yn gyffredinol, rydych chi'n cadw at eich gwerthoedd sylfaenol pan fyddwch chi'n dechrau nyrsio, ond mae'n bosibl y bydd adegau pan fydd y gwerthoedd personol hyn yn cael eu herio. Enghraifft bosibl yw eich bod yn credu y dylai pob bywyd gael ei amddiffyn dan unrhyw amgylchiadau. Gallai hynny fod yn Senario 4 lle ceir trafodaeth ynghylch a yw plentyn yn cael ei ddadebru ai peidio, a bod hyn yn gwrthdaro â'ch credoau a'ch gwerthoedd personol.

Pan fydd gormod o wrthdaro rhwng eich credoau a'ch gwerthoedd personol, gall nyrsys ddewis gadael y sefydliad a hyd yn oed y proffesiwn.

3.2 Chwe gwerth craidd nyrsio

Mae nyrsio yn broffesiwn sy'n seiliedig ar nifer o werthoedd allweddol, ond beth yw gwerth hynny yng nghyd-destun nyrsio?

Mae gwerthoedd nyrsio yn gredoau sylfaenol yn y proffesiwn. Dyma beth mae'r proffesiwn yn ei olygu ac maen nhw'n siapio'r camau y mae'r rheini yn y proffesiwn yn eu cymryd.

Mae'r GIG yn Lloegr yn diffinio chwe gwerth craidd. Mae'r gwerthoedd hyn yn sylfaenol ac yn cael eu cydnabod ledled y DU.

Dyma'r gwerthoedd: gofal, tosturi, cymhwysedd, cyfathrebu, dewrder ac ymrwymiad.

Gweithgaredd 5 Archwilio eich gwerthoedd eich hun

Gwylwch Fideo 2 ac ystyriwch eich gwerthoedd eich hun drwy ateb y cwestiynau sy'n dilyn. Nid oes atebion cywir ac anghywir gan mai eich gwerthoedd chi fel nyrs yw'r rhain.

Video content is not available in this format.

Fideo 2:



Pam ydych chi'n meddwl ei bod yn bwysig trin pobl â pharch ac urddas? Beth mae hyn yn ei olygu i chi?

Provide your answer...

Pam ydych chi'n meddwl bod pobl yn haeddu derbyn gofal gan y rheini sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth briodol?

Provide your answer...

Meddyliwch am adeg pan wnaethoch chi gyfathrebu'n dda, naill ai mewn lleoliad gwaith neu gartref. Sut oedd cyfathrebu effeithiol wedi helpu yn y sefyllfa honno?

Provide your answer...

Meddyliwch am adeg pan fu'n rhaid i chi fod yn ddewr, pan roedd yn rhaid i chi sefyll i fyny dros eich hun neu rywun arall. Oedd hyn yn anodd? Sut oeddech chi'n teimlo? Yn eich barn chi, beth wnaethoch chi ei gyflawni?

Provide your answer...

Meddyliwch am adeg yn eich bywyd (personol neu fywyd gwaith) pan rydych chi wedi ymrwymo i rywbeth ac wedi cael canlyniad cadarnhaol. Sut roedd hynny'n teimlo?

Provide your answer...

Discussion

Bydd eich atebion yn adlewyrchu eich gwerthoedd. Pan fydd prifysgolion yn dewis myfyrwyr ar gyfer cyrsiau nyrsio, byddant yn aml yn gofyn cwestiynau am eich gwerthoedd er mwyn dod o hyd i'r bobl hynny y mae eu gwerthoedd yn cyd-fynd â gwerthoedd nyrsio.

Ymarfer nyrsio yng Nghymru a'r 'Cynnig Rhagweithiol'

Mae iaith wrth galon asesiad clinigol effeithiol a thriniaeth ddiogel, yn arbennig ar gyfer rhai grwpiau o gleifion. Mae'r 'Cynnig Rhagweithiol' yn rhoi'r cyfrifoldeb ar ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg, yn hytrach na rhoi'r cyfrifoldeb ar y claf neu'r defnyddiwr gwasanaethau i orfod gofyn amdanynt.

Mae'r Gymraeg yn rhan o fywyd ac ymarfer bob dydd yng Nghymru. Mae gwneud 'Cynnig Rhagweithiol' yn cydnabod bod cyfathrebu effeithiol yn allweddol i ddiwallu anghenion cleifion Cymraeg eu hiaith, yn ogystal â sicrhau diogelwch cleifion drwy gyfathrebu cywir a chynnal parch ac urddas tuag at gleifion a chleientiaid. Gall pawb gyfrannu, p'un a ydych chi'n dysgu Cymraeg neu'ch bod yn rhugl.

Mae gan Lywodraeth Cymru [Gynllun Pum Mlynedd](#) sydd â'r nod o wella hyn. Gallai eich ymwybyddiaeth, eich gwybodaeth, a'ch sgiliau mewn sensitifrwydd iaith ar gyfer gofal cleifion gyfrannu at eich cyrhaeddiad cymhwysedd fel myfyriwr nyrsio a gall hefyd gyfrannu at eich cyflogadwyedd yng Nghymru yn y dyfodol.

4 Gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill – rôl y tîm amlddisgyblaethol

Yn aml, mae gan gleifion anghenion lluosog ac weithiau cymhleth sy'n golygu bod angen i fwy nag un ddisgyblaeth broffesiynol gymryd rhan yn eu gofal. Ym maes gofal iechyd, mae gweithwyr proffesiynol o amrywiaeth o ddisgyblaethau yn cydweithio i ffurfio Tîmau Amlddisgyblaethol. Mae NHS England wedi disgrifio gwaith amlddisgyblaethol yn eu hadroddiad yn 2015 fel a ganlyn.

Mae gwaith Amlddisgyblaethol ac Amlasiantaeth yn golygu defnyddio gwybodaeth, sgiliau ac arferion gorau yn briodol o sawl disgyblaeth ac ar draws ffiniau darparwyr gwasanaethau, e.e. darparwyr iechyd, gofal cymdeithasol neu'r sector gwirfoddol a phreifat i ailddiffinio, ail-gwmpasu ac ail-fframio problemau yn ymwneud â darparu iechyd a gofal cymdeithasol a dod o hyd i atebion sy'n seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth well o anghenion cymhleth cleifion.

(NHS England, 2015)



Fel y nodwyd yn y dyfyniad o adroddiad NHS England, mae'r claf yn ganolog i waith amlddisgyblaethol ym maes gofal iechyd; i asesu, cynllunio, a rheoli gofal ar y cyd ac yn effeithiol. Bydd tîm amlddisgyblaethol ym maes gofal iechyd yn cynnwys nifer o weithwyr proffesiynol o wahanol ddisgyblaethau. Gall y rhain amrywio yn dibynnu ar y gwasanaeth neu ar anghenion y cleient. Er enghraifft, gall Tîm Amlddisgyblaethol cymunedol sy'n gweithio gydag unigolyn hŷn sy'n gwella ar ôl torri ei glun gynnwys meddyg teulu, nyrs gymunedol, therapydd galwedigaethol, gweithiwr cymdeithasol a ffisiotherapydd.

Gweithgaredd 6 Adnabod aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol

Dyma rai enghreifftiau o gleifion a'u hanghenion. Edrychwch i weld a allwch chi nodi'r gwahanol weithwyr proffesiynol y gallai nyrs weithio gyda nhw mewn tîm amlddisgyblaethol ar gyfer pob claf.

Claf 1

Mae gan Martin broblem iechyd meddwl cronig ers sawl blwyddyn. Dro yn ôl, roedd yn glaf mewnol mewn ysbyty arbenigol yn cael triniaeth ar gyfer episod seicotig. Mae'n cymryd meddyginiaeth reolaidd y mae angen ei hadolygu bob chwe mis ac mae wedi cofrestru gyda'i feddyg teulu lleol. Mae Martin bellach yn byw mewn fflat bach ac yn cwrdd â'i nyrs iechyd meddwl cymunedol fel rhan o'i gynllun gofal. Mae Martin yn anhapus lle mae'n byw ac yn cael trafferth gyda'i arian a chael gafael ar fudd-daliadau. Gall hyn effeithio ar ei gyflwr iechyd meddwl.

Provide your answer...

Discussion

Yn ogystal â'r nyrs iechyd meddwl, gall y Tîm Amlddisgyblaethol sy'n cefnogi Martin gynnwys meddyg teulu, seiciatrydd, gweithiwr cymdeithasol, swyddog tai, therapydd galwedigaethol a seicolegydd.

Claf 2

Mae Nhu yn 12 oed ac yn byw gyda chyflwr iechyd hirdymor sy'n effeithio ar ei gallu i symud ac anadlu. Mae hi'n cael ei bwydo drwy diwb ac mae angen ocsigen arni yn ystod y nos. Mae ei rhieni wedi gwneud addasiadau i'r cartref a'i hystafell wely, ond wrth iddi dyfu, maen nhw'n ei chael yn fwy anodd ei helpu gyda'i gweithgareddau bob dydd. Mae gan Nhu chwaer hŷn 15 oed sy'n helpu ei rhieni i ofalu amdani. Mae gan Nhu nyrs gymunedol plant sy'n ymweld â'r teulu'n rheolaidd.

Provide your answer...

Discussion

Yn ogystal â'r nyrs gymunedol (a allai fod yn nyrs arbenigol plant), gall y Tîm Amlddisgyblaethol sy'n cefnogi Nhu gynnwys pediatregydd, meddyg teulu, nyrs ardal, ffisiotherapydd, therapydd galwedigaethol, gweithiwr cymdeithasol, swyddog tai a therapydd iaith a lleferydd.

Claf 3

Mae Ademola yn 55 oed ac yn byw gartref gyda'i fam. Mae ganddo anabledd dysgu a rhai problemau iechyd sy'n ymwneud â'i epilepsi a'i asthma. Mae'n mynychu cynllun gwaith dri diwrnod yr wythnos, ond byddai hefyd yn hoffi gwneud mwy o weithgareddau gartref ac yn ei gymuned leol. Mae gan Ademola nyrs gymunedol anableddau dysgu sy'n ymweld ag ef yn rheolaidd i'w helpu gyda'i anghenion iechyd.

Provide your answer...

Discussion

Yn ogystal â'r nyrs gymunedol anableddau dysgu, gall y Tîm Amlddisgyblaethol sy'n cefnogi Ademola gynnwys meddyg teulu, nyrs practis, gweithiwr cymdeithasol, therapydd galwedigaethol, seiciatrydd, nyrs arbenigol epilepsi a nyrs arbenigol asthma. Gallai'r sector gwirfoddol hefyd fod yn rhan o ofal Ademola i'w helpu i gael mynediad at weithgareddau yn y gymuned.

Mae gweithio amlddisgyblaethol yn golygu bod sawl gweithiwr proffesiynol, yn ogystal â'r unigolyn sy'n derbyn gofal, yn cyfrannu at benderfyniadau'n ymwneud â'r gofal. Os yw'n blentyn, mae'n bosibl mai'r teulu yw hwnnw, ond gofynnir am farn y plentyn hefyd os yw

hynny'n bosibl. Yn aml, mae'n bosibl na fydd teuluoedd a gofalwyr yn gweld y gwahanol weithwyr proffesiynol yn y tîm amlddisgyblaethol yn cydweithio, ond dylent sylwi ar ganlyniadau cadarnhaol gwaith Tîm Amlddisgyblaethol effeithiol. Gyda chyflyrau iechyd cronig neu anabledd hirdymor, gall y claf neu ei ofalwr weithio gyda llawer o weithwyr proffesiynol dros nifer o flynyddoedd mewn timau amlddisgyblaethol gwahanol, ond gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ddylai fod hanfod pob un.

Gweithgaredd 7 Persbectif rhiant o'r tîm amlddisgyblaethol

Yn Fideo 3, byddwch yn clywed gan Hayley sydd gan ferch â syndrom Down. Yn y fideo, mae Hayley yn sôn am y gwahanol weithwyr proffesiynol y mae hi wedi dod ar eu traws wrth i'w merch dyfu o fod yn fabi i fod yn blentyn. Mae hi'n sôn yn benodol am ddysgu am yr hyn y mae nyrsys anabledau dysgu yn ei wneud. Mae hon yn enghraifft dda o sut nad yw rhieni, gofalwyr neu'r cleifion eu hunain o bosibl yn deall rôl gweithwyr proffesiynol yn y tîm yn llawn nes eu bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gofal.

Wrth i chi wyllo'r fideo, meddyliwch am nifer y gweithwyr proffesiynol y gallai Hayley fod wedi bod mewn cysylltiad â nhw yn ystod plentyndod cynnar ei merch.

Video content is not available in this format.

Fideo 3:



Provide your answer...

Mae bod yn nyrs yn golygu gallu gweithio gyda gweithwyr proffesiynol a disgyblaethau eraill er budd y claf, ond mae hyn hefyd yn gofyn am set o sgiliau, gwybodaeth ac agweddau er mwyn bod yn llwyddiannus.

Yn eich barn chi, pa rai o'r canlynol sy'n wybodaeth ac yn sgiliau pwysig y mae nyrsys eu hangen i weithio'n effeithiol mewn tîm amlbroffesiwn?

- Cyfathrebu
 - Gweithio mewn tîm
 - Rheoli amser
 - Deall rolau pobl eraill
 - Cyfrannu at benderfyniadau ar y cyd
 - Pob un o'r uchod
-

Discussion

Os oeddech chi'n meddwl bod y rhain i gyd yn hanfodol i weithio'n dda mewn tîm, roeddech chi'n gywir. Mae'r rhain i gyd yn sgiliau a gwybodaeth sydd eu hangen er mwyn gweithio mewn timau.

Mae nyrsys yn gweithio mewn timau ond maen nhw hefyd yn atebol yn unigol am eu hymarfer eu hunain. Mae'r adran nesaf yn edrych ar waith y corff rheoleiddio ar gyfer nyrsys yn y DU.

5 Rheoleiddio nyrsys yn y DU

Mae nyrsio yn y DU yn cael ei rheoleiddio gan gorff o'r enw'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC), lle mae manylion pob nyrs, bydwraig a chydymaith nyrsio cofrestredig yn cael eu cadw ar gronfa ddata o'r enw'r Gofrestr Nyrsio. Yr NMC sy'n gyfrifol am y Gofrestr, a nhw hefyd sy'n cynhyrchu safonau arfer da a chod ymarfer proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwagedd o'r enw 'Y Cod'. Ar ben hynny, maen nhw'n llunio safonau ar gyfer addysg y mae'n rhaid i bob prifysgol sy'n cynnig addysg nyrsio lynu wrthynt.


Un o rolau allweddol yr NMC yw diogelu'r cyhoedd ac arwain nyrsys a bydwagedd yn eu hymarfer proffesiynol. Os nad yw nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn ymarfer yn ddiogel, gall yr NMC ymchwilio i sicrhau bod y cyhoedd yn ddiogel.

Gweithgaredd 8 Gwaith y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC)

Yn gyntaf, gwylwch Fideo 4 am waith y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Video content is not available in this format.

Fideo 4:



Ar ôl gwyllo'r fideo, ystyriwch pam rydych chi'n meddwl ei bod yn bwysig cael corff rheoleiddio i ddiogelu'r cyhoedd.

Provide your answer...

Discussion

Efallai eich bod wedi meddwl am awgrymiadau fel: oherwydd bod nyrsys yn gweithio gyda phobl agored i niwed, neu oherwydd bod nyrsys ar gofrestr genedlaethol. Mae'r ddau beth yma'n wir. Mae gan yr NMC gofrestr y mae'r holl

nyrsys cofrestredig (a chymdeithion nyrsio) yn rhan ohoni. Er mwyn diogelu'r cyhoedd, mae'r NMC yn monitro arferion pob nyrs ar y gofrestr.

Beth sy'n gwneud nyrsys da yn eich barn chi?

Provide your answer...

Discussion

Efallai eich bod wedi cynnwys nodweddion fel gonestrwydd ac amynedd, ond hefyd sgiliau a gwybodaeth benodol. Mae nyrs yn gyfuniad o sgiliau, gwybodaeth ac agweddau, ac mae'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y Cod (Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, 2018).

Nawr gwylwch yr animeiddiad byr yn Fideo 5 gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth sy'n canolbwyntio ar un elfen o'r Cod.

Video content is not available in this format.

Fideo 5:



Ydych chi'n meddwl bod nyrs yn dal i fod yn nyrs, hyd yn oed pan fydd yn gorffen ei shift yn y gwaith ac yn mynd adref?

Pam ydych chi'n meddwl ei bod hi'n bwysig bod nyrsys yn gallu dangos proffesiynoldeb yn eu gwaith o ddydd i ddydd a'r tu allan i'r gwaith?

Provide your answer...

Discussion

Mae bod yn nyrs yn golygu mwy na chynnal safonau proffesiynol wrth weithio. Fel y gwelsoch yn Fideo 5, mae'r ffordd y mae nyrsys yn ymddwyn pan nad ydynt yn y gwaith yn dylanwadu ar yr hyder sydd gan y cyhoedd mewn nyrsio fel proffesiwn. Er enghraifft, dychmygwch senario lle mae rhywun yn torri'r gyfraith, neu'n bod yn greulon neu'n gas, a'ch bod yn darganfod wedyn bod y person hwnnw'n nyrs. Fyddai gennych chi hyder ynddo, yn gwybod y gallai fod yn darparu gofal i chi rhyw ddiwrnod?

Mae'r Cod yn arwain nyrsys a'u hymddygiad proffesiynol, boed hynny yn y gwaith ai peidio.

6 Pwysigrwydd astudio nyrsio

Nodir y safonau ar gyfer addysg nyrsio gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC), a ddysgoch amdanynt yn Adran 5. Mae hyn er mwyn sicrhau, lle bynnag y bydd y myfyriwr yn dilyn ei gwrs yn y DU, ei fod yn cyrraedd yr un safonau. Yn y DU, pan fydd myfyrrwyr nyrsio yn dilyn eu cyrsiau, maen nhw'n astudio theori nyrsio, theori sut i ofalu, a theorïau ynghylch y ffordd orau o nyrsio. Mae'r elfen theori hon yn cyfrif am 50 y cant o'r cwrs, gyda'r gweddill yn digwydd mewn lleoliadau ymarfer neu leoliad gwaith er mwyn i fyfyrwyr allu dysgu a datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth nyrsio tra byddant yn y gwaith.

Gall elfen theori astudiaeth nyrsio ddigwydd o bell neu wyneb yn wyneb – neu gall fod yn gymysgedd neu'n gyfuniad o'r ddau. Mae'r pynciau sy'n cael eu hastudio fel rhan o gysiau nyrsio yn cael eu cymhwyso'n benodol i ofal ac yn adeiladu'r wybodaeth sydd ei hangen ar nyrsys i ddarparu gofal da.

Maen nhw'n cynnwys:

- Anatomeg a ffisioleg
- Seicoleg
- Cymdeithaseg
- Theorïau nyrsio
- Polisi cymdeithasol a gwleidyddiaeth.

6.1 Astudiaeth theori nyrsio

Nesaf, byddwch yn edrych ar bob un o'r pum pwnc a drafodir yn yr astudiaeth theori nyrsio yn eu tro, ac yn ystyried sut mae pob un yn cysylltu ag ymarfer nyrsio.

Anatomeg a ffisioleg

Mae anatomi a ffisioleg yn golygu astudio nid yn unig strwythur y corff dynol ond hefyd ei swyddogaethau. Mae'n cynnwys deall yr anhwylderau sy'n gysylltiedig â phob swyddogaeth a strwythur y corff.

Enghraifft

Strwythur:

Y system anadlu

Swyddogaeth:

Anadlu gan gynnwys cyfnewid nwyon.

Cyflwr iechyd:

Asthma.

Felly, gallai hyn ymddangos yn theori resymegol i fod yn sail i ymarfer nyrsio, ond mae ein lles hefyd yn gysylltiedig â sut mae ein meddyliau'n gweithio, felly gadewch i ni edrych ar seicoleg.

Seicoleg

Mae seicoleg yn wyddor y gellir, fel gwyddorau eraill, ei hastudio y tu allan i nyrsio. Mae elfennau o theori seicoleg yn sail i ymarfer nyrsio. Er enghraifft, deall ymddygiad gan gynnwys ymddygiad iechyd, ymatebion emosiynol, cyfathrebu, hunanymwybyddiaeth a gwneud penderfyniadau.

Enghraifft

Theori seicolegol:

Ymddygiad iechyd.

Ymyriad nyrsio:

Cefnogi rhoi'r gorau i ysmegu.

Mae deall y rhesymau pam mae pobl yn gwneud y dewisiadau maen nhw'n eu gwneud mewn perthynas â'u hiechyd, a'r damcaniaethau seicolegol sy'n sail i hyn, yn gallu bod yn gymorth i nyrsys wrth iddynt gynnig cymorth gydag ymddygiadau fel rhoi'r gorau i ysmegu.

Cymdeithaseg

Mae cymdeithaseg hefyd yn wyddor sy'n aml yn cael ei hastudio fel pwnc ar wahân, ond pan gaiff ei chymhwyso i nyrsio, gall helpu nyrsys i ddeall sawl agwedd ar iechyd. Er enghraifft, mewn cymdeithas, mewn perthynas â deinameg teulu, diwylliant.

Enghraifft

Theori gymdeithasegol:

Mae theori labelu yn enghraifft lle mae'r label sy'n gysylltiedig â rhywun yn siapio eu hymddygiad a sut mae pobl o'u cwrpas yn eu gweld nhw. Gall labeli mewn nyrsio gynnwys: sâl, anabl neu salwch meddwl.

Ymyriad nyrsio:

Cynnig gofal anfeirniadol/gwrth-wahaniaethol.

Gall deall natur labelu a sut gallai'r labeli hyn newid rhyngweithiad a/neu ddisgwyliadau'r rheini sydd â'r label hwn gefnogi ymyriadau nyrsio.

Theori nyrsio

Mae theorïau penodol ynghylch nyrsio sy'n sail i ymarfer nyrsio. Mae'r rhain yn aml yn ymwneud â modelau gofal a fframweithiau ar gyfer darparu gofal.

Enghraifft

Theori:

Theori hunanofal Orem. Mae'r theori hon yn nodi agweddau ar hunanofal a phwysigrwydd rhoi rheolaeth i'r claf.

Ymyriad nyrsio:

Cefnogi'r claf i reoli ei iechyd a'i les ei hun.

Theori polisi cymdeithasol a gwleidyddiaeth

Mae nyrsys yn gweithio mewn tirwedd wleidyddol; mae iechyd yn agwedd allweddol ar agenda wleidyddol a pholisi cymdeithasol pob cymdeithas. Mae deall y cyd-destun y mae nyrsys yn gweithio ynddo yn bwysig i bob nyrs.

Enghraifft

Theori gymdeithasol a gwleidyddiaeth:

Enghraifft bosibl fyddai datblygu polisi newydd ar gyfer gofal dementia. Bydd y polisi hwn nid yn unig yn llunio datblygiad gwasanaethau ar gyfer pobl â dementia, ond bydd hefyd yn cynnig arweiniad i'r rhai sy'n gweithio yn y gwasanaethau hynny.

Ymyriad nyrsio:

Mae'r nyrs sy'n gweithio gyda'r unigolyn â dementia a'i deulu yn deall pa wasanaethau allai fod ar gael nawr ac yn y dyfodol.

Yn y gweithgaredd nesaf, byddwch yn edrych ar sut gall myfyriwr nyrsio fynd ymlaen i gymhwyso'r theori hon mewn sefyllfa ymarferol.

Gweithgaredd 9 Rhoi'r dysgu yn y dosbarth ar waith

Yn yr astudiaeth achos ganlynol, mae Harry yn fyfyrwr nyrsio ym mlwyddyn olaf ei gwrs nyrsio ac mae'n ymweld â theulu gyda'i fentor fel rhan o'i leoliad cymunedol. Wrth i chi ddarllen, meddyliwch am rywfaint o'r theori y gallai Harry fod wedi bod yn ei hastudio yn y brifysgol i'w helpu i ddeall anghenion ei glaf.

Mae Harry yn ymweld â Mrs Kowalczyk, dynes 83 oed sy'n byw gyda'i merch a'i theulu – gŵr a dau o blant yn eu harddegau. Yn ddiweddar, roedd Mrs Kowalczyk wedi cwmpo a thorri ei chlun. Mae hi wedi dychwelyd o'r ysbyty ar ôl cael clun newydd ac yn gwella'n dda yn gorfforol. Mae ei merch yn dweud wrth y nyrsys ei bod yn poeni bod ei mam yn dal i fod yn simsan wrth gerdded ac efallai y bydd angen addasu'r tŷ i'w wneud yn ddiogel. Mae hi'n hapus bod ei mam yn byw gyda nhw ond mae hi wedi sylwi bod ei mam wedi mynd yn anghofus iawn, ac wedi dechrau siarad Pwyleg, ei mamiaith, pan fydd hi'n drist. Mae merch Mrs Kowalczyk hefyd yn dweud wrthynt fod ei phlant yn cael trafferth deall pam nad yw eu nain yn gallu cofio eu henwau a'i bod mor

ddryslyd, ac maen nhw wedi dechrau treulio mwy o amser yng nghartrefi ffrindiau.

Provide your answer...

Discussion

Bydd Harry wedi bod yn astudio amrywiaeth o bynciau ar ei gwrs prifysgol gan gynnwys anatomeg a ffisioleg, cymdeithaseg a seicoleg. Bydd hefyd wedi astudio iechyd a diogelwch, a bydd yn deall sut y gallai fod angen i nyrsys helpu cleifion a'u teuluoedd i gael gafael ar wahanol wasanaethau.

Yn y senario hon, bydd Harry yn defnyddio ei wybodaeth am anatomeg a ffisioleg i ddeall beth sydd wedi digwydd i glun Mrs Kowalczyk, y llawdriniaeth a sut mae'n gwella. Bydd hefyd wedi astudio cymdeithaseg a bydd yn ymwybodol o amrywiaeth ddiwylliannol, a deinameg teulu. Hefyd, drwy astudio seicoleg, bydd ganddo ddealltwriaeth o ymddygiad iechyd ac effaith salwch ar deulu, nid ar y claf yn unig.

Bydd Harry wedi astudio asesiadau nyrsio a dementia, a bydd yn ymwybodol y gallai'r nyrs gymwysedig awgrymu asesiad dementia. Mae'n gwybod hefyd y gall y nyrs atgyfeirio at weithwyr proffesiynol eraill, fel ffisiotherapydd a therapydd galwedigaethol ar gyfer asesiadau symudedd a sgiliau yn y cartref.

Dyma rai enghreifftiau o sut bydd Harry yn defnyddio ei wybodaeth am y theori i lywio ei ymarfer fel nyrs a deall y penderfyniadau y bydd yn eu gwneud pan fydd yn nyrs cymwysedig.

Beth yw eich myfyrdodau ar sut mae Harry wedi defnyddio ei wybodaeth am theorïau?

7 Rôl defnyddwyr gwasanaethau mewn gofal iechyd

Mae defnyddwyr gwasanaethau yn rhan allweddol o'r GIG. Mewn grwpiau yn aml, maen nhw'n darparu adnodd i lywio'r gwaith o wella gwasanaethau, ac yn cynnig eu safbwyntiau i wneud penderfyniadau a newidiadau mewn sefydliadau.

Ym mhob un o bedair gwlad y DU, mae defnyddwyr gwasanaethau wrth galon eu gwasanaethau iechyd a'u gwaith cynllunio iechyd. Mae rôl y gofalwr neu'r defnyddiwr gwasanaethau yn y GIG wedi bod yn tyfu am dros ddegawd bellach. Mae hyn wedi golygu bod gofawyr a defnyddwyr gwasanaethau gofal iechyd yn cael mewnbwn ar bob lefel, o lunio polisïau i gynghori ar welliannau i wasanaethau ar lefel ward neu uned.

Mae gan lawer o wasanaethau yn y GIG lwybrau penodol ar gyfer cynnwys defnyddwyr gwasanaethau drwy bwyllgorau, grwpiau ac adnoddau fel arolygon boddhad ac adborth cleifion.


Gweithgaredd 10 Lleisiau gofawyr a defnyddwyr gwasanaethau

Gwylwch Fideo 6 a meddwl am y cwestiynau canlynol.

- Pam ydych chi'n meddwl ei bod hi'n bwysig rhoi llais i ofawyr neu ddefnyddwyr gwasanaethau?
- Sut ydych chi'n meddwl y gall cynnwys defnyddwyr gwasanaethau helpu nyrsys i ddarparu gofal gwell?

Video content is not available in this format.

Fideo 6:



Provide your answer...

.....

Discussion

Mae gan y bobl ifanc yn y fideo hwn farn am y gwasanaeth iechyd a sut hoffent ei weld yn cael ei newid a'i siapia yn y dyfodol. Mae'r fforymau wedi galluogi hyn i ddigwydd.

I nyrsys, mae gwrando ar yr hyn sydd ei eisiau ar gleifion a defnyddwyr gwasanaethau, a'u profiadau o'r gwasanaethau, yn helpu i lunio a datblygu gofal o ansawdd da.

8 Pedwar maes nyrsio

Mae nyrsio, fel y dysgoch chi yn Adran 1, yn cynnwys pedwar maes: nyrsio oedolion, nyrsio iechyd meddwl, nyrsio plant, a nyrsio anableddau dysgu. Pan fyddwch yn dewis nyrsio fel gyrfa, bydd angen i chi wybod hefyd pa faes hoffech ei astudio.

Bydd llawer o bobl yn dewis maes ar sail profiadau blaenorol – rhai personol ac yn y gwaith – a'r dyfodol maen nhw'n ei rag-weld i'w hunain fel nyrs. Yn yr adran hon, byddwch yn edrych ar bob maes nyrsio yn ei dro i'ch helpu i ystyried pa faes a allai fod fwyaf addas i chi.

Os ydych chi'n gwneud cais i ddilyn cwrs nyrsio, bydd angen i chi allu dangos pam eich bod wedi gwneud cais i'r maes dan sylw, yn ogystal â dangos dealltwriaeth o'r meysydd nyrsio eraill. Hyd yn oed os ydych chi'n meddwl eich bod wedi penderfynu pa faes nyrsio sydd o ddiddordeb i chi, bydd gwylio'r holl fideos yn yr adrannau canlynol yn eich helpu i ddatblygu dealltwriaeth o'r holl arbenigeddau.

8.1 Nyrsio iechyd meddwl

Mae nyrsys iechyd meddwl yn gweithio mewn amrywiaeth o leoliadau i gefnogi pobl sy'n wynebu problemau cyffredin fel iselder neu orbryder, yn ogystal â chyflyrau fel anhwylderau bwyta, sgitsoffrenia a dementia.



Mae nyrsys iechyd meddwl hefyd yn canolbwyntio ar gefnogi lles meddyliol a hybu iechyd meddwl cadarnhaol. Fel nyrs iechyd meddwl, efallai y byddwch yn gweithio gydag oedolion neu blant a phobl ifanc, mewn ysbytai, clinigau, canolfannau asesu a thriniaeth, lleoliadau addysg, lleoliadau gofal cymdeithasol, neu yn y cartref. Weithiau mae pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn wynebu gwahaniaethu a stigma ac, fel nyrs iechyd meddwl, rhan allweddol o'ch rôl fyddai eirioli dros y bobl rydych chi'n gweithio gyda nhw. Gwylwch Fideo 7 am nyrsio iechyd meddwl, a gynhyrchwyd gan y Coleg Nyrsio Brenhinol. Yn y fideo, mae Kiran Jnagal yn siarad am ei gyrfa ym maes nyrsio iechyd meddwl.

Video content is not available in this format.

Fideo 7:



8.2 Nyrsio plant

Mae nyrsys plant yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn ysbytai, yn y gymuned, mewn ysgolion ac mewn clinigau, a gyda phlant a theuluoedd yn eu cartrefi ac fel rhan o ofal seibiant. Maen nhw'n gofalu am blant o'u genedigaeth hyd at y glasoed. Efallai y byddwch yn gweithio gyda phlant iach i gefnogi a hybu iechyd, fel mynd i'r afael â gordewdra ymysg plant, neu gyda phlant ag anghenion cymhleth iawn a/neu anhwylderau sy'n cyfyngu ar eu bywyd. Bydd nyrsys plant yn gweithio gyda'r teulu cyfan i gefnogi iechyd a lles y plentyn.

Gwylwch y fideo hwn am nyrsio plant, sy'n dangos nyrsys yn rhannu eu profiadau a'u gwerthoedd yn y maes nyrsio hwn.

Video content is not available in this format.

Fideo 8:



8.3 Nyrsio anableddau dysgu

Gall nyrsys anableddau dysgu weithio mewn unrhyw leoliad lle mae pobl ag anabledd dysgu yn byw, yn gweithio neu'n dysgu. Gall hyn fod mewn 'timau cymunedol', lleoliadau preswyl, ysgolion, gweithleoedd, clinigau ac mewn ysbytai, gan helpu pobl ag anabledd dysgu i gael gafael ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Mae llawer o nyrsys anableddau dysgu yn gweithio gyda thimau amlddisgyblaethol mewn cymunedau lleol, gan helpu pobl ag anabledd dysgu i fyw bywyd i'r eithaf. Yn y maes hwn, gallai nyrsys weithio gyda phlant neu oedolion i'w helpu i fod mor annibynnol â phosibl ac i fyw bywyd boddhaus. Mae pobl yn gwahaniaethu yn erbyn pobl ag anableddau dysgu yn aml, ac efallai y bydd angen i nyrsys eirioli dros y bobl yn eu gofal a'u teuluoedd.

Gwylwch Fideo 9, sy'n dangos rhai o'r rhesymau posibl dros ddewis nyrsio anableddau dysgu.

Video content is not available in this format.

Fideo 9:



8.4 Nyrsio oedolion

Nyrsio oedolion, a oedd arfer cael ei alw'n nyrsio cyffredinol, yw'r maes nyrsio sy'n cael y sylw pennaf yn y cyfryngau. P'un ai eich bod yn gwyllo drama ysbyty neu raglen deledu sy'n dangos nyrsys yn y gymuned, mae nyrsys oedolion yn gweithio mewn amrywiaeth eang o leoliadau. Mae ysbytai, clinigau, y gymuned, carchardai, llongau mordeithio a busnesau mawr i gyd yn fannau lle mae nyrsys yn gofalu am bobl sydd ag amrywiaeth o anghenion iechyd. Gall yr anghenion hyn amrywio o fân anhwylderau i gyflyrau cronig a gydol oes, yn ogystal â gofal lliniarol pan fydd rhywun yn marw. Yn debyg i bob maes nyrsio, mae nyrsys oedolion hefyd yn canolbwyntio ar gynnal iechyd a lles, a hybu iechyd a ffyrdd iach o fyw.

Gwylwch Fideo 10, sy'n dangos nyrs gofrestredig sydd newydd gymhwyso yn gweithio gyda cheiswyr lloches.

Video content is not available in this format.

Fideo 10:



8.5 Pa faes nyrsio sy'n addas i fi?

Nawr eich bod wedi gwyllo fideos ar gyfer pob maes nyrsio, beth sydd fwyaf o ddiddordeb i chi am bob maes, a pham? Oes gennych chi ddiddordeb mewn un maes yn benodol? Gwrandewch ar Glip Sain 1 a gwrando ar fyfyrwyr y Brifysgol Agored yn esbonio beth wnaeth eu hysbrydoli i fod yn nyrs, a pham eu bod wedi dewis astudio gyda'r Brifysgol Agored.

Audio content is not available in this format.



Clip Sain 1

Casgliad

Yn y cwrs hwn, rydych chi wedi archwilio nyrsio yn y DU, y pedwar maes nyrsio, sut mae nyrsys yn hyfforddi, beth maen nhw'n ei astudio a sut maen nhw'n cael eu rheoleiddio. Rydych chi hefyd wedi edrych ar y gwerthoedd sy'n sail i ymarfer nyrsio a'r hyn y mae bod yn nyrs ar draws y byd yn ei olygu.

Gobeithio bod y cwrs hwn wedi rhoi cyfle i chi ddysgu mwy am nyrsio ac a ydych chi'n teimlo mai dyma'r yrfa i chi.

Erbyn hyn, dylech chi allu:

- nodi'r cyfleoedd a'r rolau allweddol y mae nyrsys yn eu cyflawni yn y DU heddiw
- crynhoi rhai o'r heriau allweddol y mae nyrsys yn eu hwynebu a sefydlu beth sy'n gwneud nyrsys gwyd
- deall y gwahaniaethau rhwng y pedwar maes nyrsio a'r gwahanol ffyrdd o ddod yn Nyrs Gofrestredig yn y DU.

Mae'r cwrs OpenLearn hwn yn cael ei greu ar y cyd â chysiau'r Brifysgol Agored mewn [Nyrsio a Gofal Iechyd](#).

References

Carmel, L. P. (2017) 'Experience counts', *Nursing Standard*, 32(7), t. 30.

Cyngor Rhyngwladol y Nyrsys (2002) *Diffiniadau nyrsio*. Ar gael yn:

<https://www.icn.ch/nursing-policy/nursing-definitions> (Cyrchwyd: 15 Mawrth 2022).

NHS England (2015) *MDT Development - Working toward an effective multidisciplinary/multiagency team*. Ar gael yn:

<https://www.england.nhs.uk/wp-content/uploads/2015/01/mdt-dev-guid-flat-fin.pdf> (Cyrcwyd: 15 Mawrth 2022).

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2018) *Y Cod: Safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer nyrsys, bydwreagedd a chymdeithion nyrsio*. Ar gael yn:

<https://www.nmc.org.uk/globalassets/sitedocuments/nmc-publications/nmc-code.pdf> (Cyrcwyd: 15 Mawrth 2022).

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2021) *Ein gwybodaeth ddiweddaraf am nyrsio a bydwreigiaeth yn y DU. Ebrill 2021 – Medi 2021*. Ar gael yn:

<https://www.nmc.org.uk/globalassets/sitedocuments/data-reports/september-2021/nmc-register-september-2021-easyread.pdf> (Cyrcwyd: 15 Mawrth 2022).

Sefydliad Iechyd y Byd (2020) *State of the world's nursing 2020: investing in education, jobs and leadership*. Geneva: Sefydliad Iechyd y Byd.

Llywodraeth Cymru (2022) *Mwy na Geiriau: Cynllun pum mlynedd 2022-27*. Ar gael yn:

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-07/mwy-na-geiriau-cynllun-gweithredu-2022-2027.pdf>

Acknowledgements

Ysgrifennwyd y cwrs di-dâl hwn gan Dr Nicky Genders. Cafodd ei gyhoeddi am y tro cyntaf ym mis Ebrill 2022.

Ac eithrio deunyddiau trydydd parti a nodir fel arall (gweler y [telerau ac amodau](#)), mae'r cynnwys hwn ar gael o dan

[drwydded Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 4.0](#).

Mae'r deunydd a gydnabyddir isod ac yn y cwrs yn ddeunydd Perchnogol sy'n cael ei ddefnyddio o dan drwydded (sydd ddim yn ddarostyngedig i drwydded Creative Commons). Rydym yn rhoi cydnabyddiaeth ddiolchgar i'r ffynonellau canlynol am ganiatâd i atgynhyrchu deunydd ar gyfer y cwrs am ddim hwn.

Delweddau

Delwedd y cwrs: Phynart Studio/Getty Images

Cyflwyniad: Tîm nyrsio yng nghoridor yr ysbyty: Sturti/Getty Images

Adran 2: Dwylo'n dal mewn glôb: sasirin pamai/Getty Images

Adran 4: Nyrs yn dal llaw claf: LaylaBird/Getty Images

Adran 8.1: Bachgen yn siarad mewn sesiwn therapi: Motortion/Getty Images

Sain/Fideo

Adran 2, Gweithgaredd 2, Fideo 1: Diolch i: Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
www.nmc.org.uk <https://www.youtube.com/watch?v=WGbT8EKP-2I>

Adran 4, Gweithgaredd 7, Fideo 3: diolch i www.downssideup.com

Adran 5, Gweithgaredd 8, Fideo 4: Diolch i: Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
<https://www.nmc.org.uk/>

Adran 5, Gweithgaredd 8, Fideo 5: Diolch i: Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
<https://www.nmc.org.uk/>

Adran 7, Gweithgaredd 10, Fideo 6: Fforwm Ieuenctid NHS England, NHS England a NHS Improvement <https://www.youtube.com/watch?v=IPrlg12SO-E>

Adran 8.1, Fideo 7: diolch i Goleg Brenhinol y Nyrsys <https://www.rcn.org.uk/>

Adran 8.2, Fideo 8: diolch i: Y Coleg Nyrsio Brenhinol <https://www.rcn.org.uk/>

Adran 8.3, Fideo 9: diolch i: Y Coleg Nyrsio Brenhinol <https://www.rcn.org.uk/>

Adran 8.4, Fideo 10: diolch i Goleg Brenhinol y Nyrsys <https://www.rcn.org.uk/>

Rydym wedi gwneud pob ymdrech i gysylltu â pherchnogion hawlfraint. Os oes unrhyw hawlfraint, drwy amryfusedd, heb ei chynnwys, bydd y cyhoeddwyr yn falch iawn o wneud y trefniadau angenrheidiol ar y cyfle cyntaf posib.

Peidiwch â cholli'r cyfle!

Os ydych chi wedi cael eich ysbrydoli i ddysgu mwy drwy ddarllen y testun hwn, efallai y bydd gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r miliynau o bobl sy'n darganfod ein cymwysterau a'n hadnoddau dysgu ymweld â'r Brifysgol Agored – www.open.edu/openlearn/free-courses.